COMISIWN
gwasanaethau cyfreithiol

Adroddiad Blynyddol **2009/10**

Cymorth cyfreithiol – mynediad teg at gyfiawnder

Adroddiad Blynyddol y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol 2009/10

Cyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag Atodlen1, paragraffau 14(3) ac 16(4) Deddf Mynediad at Gyfiawnder 1999.

Gorchmynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin i gael ei argraffu 30 Tachwedd 2010.

HC575 Llundain: Y Llyfrfa £19. 75

© Hawlfraint y Goron 2010

Gallwch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, dan delerau'r Trwydded Llywodraeth Agored. Gellir darllen y drwydded hon yn http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/ neu drwy ysgrifennu i'r cyfeiriad canlynol: Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu drwy anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau mewn perthynas â'r cyhoeddiad hwn atom i chiefexecutive@legalservices.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn hefyd ar gael ar ein gwefan yn http://www.official-documents.gov.uk/

ISBN: 9780102969122

Argraffwyd yn y DU gan y Llyfrfa (TSO Cyfynghedig) ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi.

ID P002386529 11/10

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o gynnwys ffibr wedi'i ailgylchu.

Cynnwys

Adolygiad y Cadeirydd 2

Cymorth cyfreithiol – mynediad teg at gyfiawnder 3

Y flwyddyn dan sylw 5

Ein perfformiad 11

Adroddiadau ariannol 14

Adolygiad y Cadeirydd

Yr hyn sy'n nodweddiadol am 2009/10 yw y bu'n gyfnod o newid ffocws i'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol (CGC), yn benodol ar lywodraethu a rheoli ariannol dros y £2.2 biliwn (net) o wariant cymorth cyfreithiol.

Gwnaeth Adolygiad Sir Ian Magee o *Lywodraethu a chyflenwi cymorth cyfreithiol*, a gyhoeddwyd ym Mawrth 2010, nifer o argymhellion i gryfhau a gwella'r system cymorth cyfreithiol a darparodd eglurder a llymder mewn diffinio'r ffordd ymlaen ar gyfer cyflenwi cymorth cyfreithiol.

Gwnaeth y CGC newidiadau ar y lefel uchaf a hoffwn ddiolch i'r Comisiynwyr Jane Hickman (a ymddiswyddodd ar ddiwedd tymor ei phenodiad) ynghyd ag Angus Andrew, Tina Fahm, Lionel Joyce a Peter Smith (y bu iddynt adael pan wnaethom ad-drefnu'r Bwrdd yn y gwanwyn) am eu gwaith caled a'u hymrwymiad.

Hoffwn ddiolch hefyd i Carolyn Regan a ymddiswyddodd fel Prif Weithredwr pan ddaeth Carolyn Downs yn ei lle i'r swydd dros dro, wrth i'r sefydliad newid i ddod yn asiantaeth weithredol i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder.

Yn olaf, hoffwn fynegi fy niolch i'n staff sy'n parhau i weithio'n galed a bwrw cymorth cyfreithiol ymlaen mewn amser anodd.

Rydym yn cydweithio gyda'r Weinyddiaeth Cyfiawnder i gyflawni ein blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol, yng nghyd-destun ein trawsnewidiad i fod yn asiantaeth weithredol, yr arbedion angenrheidiol yn dilyn yr adolygiad cynhwysfawr o wariant a'r asesiad polisi sylfaenol mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn ymgynghori yn ei gylch ar hyn o bryd. Mae'n bwysicach nac erioed i ni gynnal ein ffocws ar gleientiaid cymorth cyfreithiol a chynnal deialog adeiladol gyda darparwyr cymorth cyfreithiol, er mwyn canfod diben cyffredin i wella cyflenwi gwasanaethau a chreu mwy o effeithlonrwydd.

Wrth i ni symud drwy'r cyfnod heriol hwn, mae'r CGC wedi ymrwymo o hyd i ddarparu'r gwasanaethau gorau posib i'r nifer sydd eu hangen o fewn y gyllideb sydd ar gael, ac i addasu i'r hinsawdd ariannol a gwleidyddol ehangach, yn ogystal â newid strwythurau cyflenwi a strwythurau busnes y farchnad gwasanaethau cyfreithiol.

Syr Bill Callaghan
Cadeirydd

Y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol
Tachwedd 2010

Cymorth cyfreithiol – mynediad teg at gyfiawnder

Cyfrifoldeb y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreitiol (CGC) yw sicrhau cyflenwad o gymorth cyfreithiol (cynrychiolaeth a chyngor drwy arian cyhoeddus) drwy ddarparwyr gwasanaethau o ansawdd uchel i bobl sydd â phroblemau cyfreithiol yng Nghymru a Lloegr.

Mae cymorth cyfreithiol yn galluogi pobl i ddiogelu eu hawliau a rhoi sylw i'w problemau. Mae ein gwaith felly yn hanfodol i weithrediad teg, effeithiol ac effeithlon y systemau cyfiawnder troseddol a sifil. Mae hefyd yn hanfodol i helpu i ddarparu mynediad at gyfiawnder a threialon teg gyda chynrychiolaeth broffesiynol.

Mae'r CGC yn cyflogi oddeutu 1500 o bobl wedi eu lleoli mewn 13 o safleoedd ar draws Cymru a Lloegr. Rydym yn comisiynu'r gwasanaethau y mae ar bobl eu hangen oddi wrth gyfreithwyr, bargyfreithwyr ac asiantaethau cynghori. Mae sgiliau ac ymrwymiad darparwyr gwasanaethau cymorth cyfreithiol yn hanfodol i helpu pobl i ddatrys eu problemau.

Rydym yn cyflenwi gwasanaethau cyfreithiol drwy gyfrwng dau gynllun: y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol (GCC) a'r Gwasanaeth Amddiffyn Troseddau (GAT). Mae gan y ddau gynllun feini prawf cymhwyso ynghylch modd y cleient a natur y broblem, gydag eithriadau cyfyngedig penodol.

Y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol

Mae'r Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol (GCC) yn rhwydwaith o gyfreithwyr, bargyfreithwyr ac asiantaethau cynghori sy'n darparu ac yn hyrwyddo cynrychiolaeth a chyngor cyfreithiol ar gyfer achosion teulu a sifil.

Mae'r CGC yn rheoli Cyngor Cyfreithiol Cymunedol, sy'n cynnwys gwasanaethau ar y rhyngrwyd a'r ffôn. Rydym hefyd yn contractio gyda darparwyr i gyflenwi gwasanaethau cymorth cyfreithiol sifil wyneb yn wyneb ar draws amrywiol gategorïau megis dyledion a thai.

Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol

Y Gwasanaeth Amddiffyn Troseddau

Mae'r Gwasanaeth Amddiffyn Troseddau (GAT) yn darparu cynrychiolaeth a chyngor cyfreithiol i bobl yr ymchwilir iddynt neu y'u cyhuddwyd o drosedd.

Mae'r CGC yn rheoli'r cynlluniau cyfreithwyr dyletswydd ar gyfer llysoedd ynadon a gorsafoedd yr heddlu fel y gall y rheini sydd angen cyngor a chynrychiolaeth weld Cyfreithiwr. Rydym hefyd yn ariannu gwasanaethau yn yr uwch lysoedd. Mae ein Gwasanaeth Amddiffynnydd Cyhoeddus yn darparu gwasanaethau amddiffyn troseddol yn uniongyrchol i'r cyhoedd.

Gwasanaeth Amddiffyn Troseddau

Cymorth cyfreithiol – mynediad teg at gyfiawnder

Ein perthynas gyda'r Llywodraeth

Sefydlwyd y CGC dan Ddeddf Mynediad at Gyfiawnder 1999. Disodlodd y Bwrdd Cymorth Cyfraith yn Ebrill 2000. Ar hyn o bryd corff cyhoeddus anadrannol a noddir gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder (MoJ) ydyw, er bod gan yr MoJ fwriad i drawsnewid y CGC yn asiantaeth weithredol yn y dyfodol agos. Mae'r Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder yn atebol i'r Senedd ynghylch ein gweithgareddau a'n perfformiad.

Ein Strategaeth

Ein Gweledigaeth	**Cymorth cyfreithiol – mynediad teg at gyfiawnder**		
Ein Gwerthoedd	Sefydliad sydd • yn gymwys • yn glir • yn hyderus • yn wrol		
Ein Hamcanion Strategol	**1** Sicrhau'r mynediad gorau posib at wasanaethau o ansawdd er mwyn bodloni anghenion amrywiol y cleientiaid yr ydym yn eu gwasanaethu	**2** Cyflenwi cynllun cymorth cyfreithiol cynaliadwy ynghyd â sefydliad amrywiol ac effeithlon	**3** Hwyluso cyflenwi cyfiawnder a blaenoriaethau ehangach y llywodraeth yn effeithlon

Y flwyddyn dan sylw

Mae'r bennod hon yn adrodd prif ddatblygiadau'r flwyddyn, gan gynnwys yr ystadegau allweddol sy'n berthnasol i gyflenwi cymorth cyfreithiol drwy gyfrwng y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol (GCC) a'r Gwasanaeth Amddiffyn Troseddau (GAT).

Y ffigurau a roddir yn y testun, oni nodir yn wahanol, yw cyfanswm costau cymorth cyfreithiol achosion. Y bwriad yw gwneud yr adrodd yn fwy cydnaws ar draws yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon, gan fod y cyfrifon ar sail croniadau, a rhoi ffigyrau cymharol mwy cyson dros amser.

Rydym yn cyflwyno gwybodaeth ystadegol ar fformat cryno. Mae dadansoddiad ystadegol manwl o'n gwaith yn 2009/10, gan gynnwys cymariaethau gyda 2008/09, i'w gweld ar ein gwefan www.legalservices.gov.uk/aboutus/how/strategic_publications.asp.

Gwariant a gweithredoedd o gymorth 2009/10[1]

	Gwariant adnoddau £m	Gweithredoedd o gymorth 000s
Gwaith Trwyddedig GCC (gros)[2]	1,014.3	164.9
llai derbynebau gweithredu	(209.2)	-
Llog i ddod i law/a ddaeth i law ayb.	(12.8)	-
Gwaith Trwyddedig GCC (net)	792.3	-
Gwaith Rheoledig GCC[3]	324.1	1,266.3
Cyfanswm GCC (net)	**1,116.4**	**1,431.2**
Troseddu is (gros)[4]	463.1	1,407.7
Troseddu uwch (gros)[5]	658.7	126.1
llai derbynebau gweithredu, ayb	(1.3)	-
Cyfanswm GAT (net)	**1,120.5**	**1,533.8**
Cyfanswm GCC a GAT (net)	**2,237.0**	**2,965.0**
Gweinyddiaeth CGC heb gynnwys ffioedd GLIEM	108.4	-
Gweinyddiaeth CGC ffioedd GLIEM yn unig	12.3	-
Cyfanswm gweinyddiaeth CGC	120.7	-

1 Caiff Gwaith Rheoledig a Gwaith Trwyddedu eu diffinio ar dudalen XX. Mae'n bosib nad yw'r ffigyrau'n cyfateb i'r cyfanswm oherwydd talgrynnu.
2 Mae gweithredoedd o gymorth Gwaith Trwyddedu GCC yn cynnwys gwaith cyfryngu teuluoedd a cheisiadau am gynrychiolaeth sifil a gymeradwywyd.
3 Mae gweithredoedd o gymorth Gwaith Rheoledig GCC yn seiliedig ar faterion newydd a ddechreuwyd, ac mae'r manylion hyn i'w gweld yn nhabl GCC2 yn y pecyn gwybodaeth ystadegol sydd ar gael ar wefan CGC.
4 Mae gweithredoedd o gymorth troseddu is yn seiliedig ar nifer yr hawliadau, heb gynnwys adolygu ffeiliau ac ail hawliadau am ddedfrydu gohiriedig. Ni ddefnyddir materion a ddechreuwyd gan nad oes gan y CGC fynediad at wybodaeth gyflawn.
5 Mae gweithredoedd o gymorth troseddu uwch yn seiliedig ar nifer y gorchmynion cynrychioli a gyflwynir.

Y flwyddyn dan sylw

Ffeithiau a ffigurau allweddol	
Fe wnaethom ariannu bron i 3 miliwn o weithredoedd o gymorth cyfreithiol drwyddo draw	Fe wnaeth y CGC barhau i helpu llawer o unigolion ar draws Cymru a Lloegr drwy ariannu mwy o weithredoedd o gymorth na'r llynedd, pan ddarparwyd bron i 2.9 miliwn o weithredoedd o gymorth.
Cyfanswm gwariant cymorth cyfreithiol (net) o £2,237.0m	Y gwariant terfynol ar adnoddau gweinyddu oedd £120.7m (net).
Ar 31 Mawrth 2010 roedd gennym 2,390 o gontractau sifil a 1,697 o gontractau troseddol gyda darparwyr gwasanaethau cyfreithiol.	Yn Ebrill 2007 bu i ni gyflwyno'r Contract Unedig sifil. Roedd hwn yn disodli'r ddau gontract ar wahân ar gyfer sefydliadau nid-er-elw a chwmnïau cyfreithwyr. Cyflwynom hefyd y Contract Unedig ar gyfer troseddu ym mis Gorffennaf 2008. Dan y Contract Unedig mae'r CGC yn ymrwymo i gontract gyda sefydliadau yn hytrach na gyda swyddfeydd unigol.

Math o gontract	Nifer y contractau	Nifer y swyddfeydd
Sifil – cyfreithwyr	2,058	2,802
Sifil – nid-er-elw	332	404
Cyfanswm sifil	**2,390**	**3,206**
Cyfanswm troseddu	**1,697**	**2,137**

Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol (GCC)

Mae'r GCC yn darparu cynrychiolaeth a help cyfreithiol sifil drwy gyfrwng Cyngor Cyfreithiol Cymunedol (CCC) yn ogystal â drwy gyfreithwyr ac asiantaethau nid-er-elw. Mae'r CGC yn dyfarnu contractau i ddarparwyr a rennir yn ôl categori cyfraith sifil, gan ganiatáu i ni ddyrannu nawdd i'r meysydd lle mae ar gleientiaid fwyaf ei angen.

Ar gyfer cymorth a chyngor cychwynnol, mae'r cyhoedd yn aml yn defnyddio CCC. Os yw cynrychiolaeth, cymorth neu gyngor wyneb yn wyneb yn angenrheidiol, cyflenwir y gwasanaethau mewn dwy ffordd:

Gwaith Rheoledig	Gwaith Trwyddedig
• Yn cwmpasu lefelau cyngor a chynrychiolaeth sylfaenol • Mae darparwyr yn cynorthwyo cleientiaid yn uniongyrchol, heb fod angen ymgeisio i'r CGC ar gyfer pob achos • Cyfeirir ato hefyd fel Help Cyfreithiol neu Help i'r Teulu (Is) • Yn cynnwys Help yn y Llys a chynrychiolaeth gerbron tribiwnlys adolygu iechyd meddwl a'r tribiwnlys llochesu a mewnfudo • Gweithred o gymorth Gwaith Rheoledig yw pob tro y bydd darparwr yn rhoi help cyfreithiol i gleient, heb gynnwys cynrychiolaeth yn y llys.	• Mae hwn i gyfrif am bob math arall o waith sifil, ac eithrio Achosion Cost Uchel Iawn, a reolir dan gontractau arbenigol • Bydd angen cyflwyno cais am nawdd i'r CGC ar gyfer pob achos. Mae'r CGC yn penderfynu a yw'r meini prawf ariannu a'r profion teilyngdod yn cael eu bodloni. Yna gosodir cyfyngiadau o safbwynt y gwaith, a gellir amrywio'r rhain os bydd y darparwr yn gwneud cais i wneud hynny ar ran y cleient.

Rydym yn sicrhau mynediad at gyfiawnder drwy ariannu 1.43 miliwn o weithredoedd o gymorth gan GCC ar y cyfan.	Ein prif amcan o hyd yw darparu mynediad at wasanaethau cyfreithiol o ansawdd i gleientiaid, o'r cyngor cychwynnol i gynrychiolaeth yn y llys. Yn ystod 2009/10 bu i'r CGC ariannu 1.43miliwn o weithredoedd o gymorth gan GCC, sy'n gynnydd o 9% ar y flwyddyn diwethaf.
Gwariom £1,116.4m (net) ar ariannu cymorth cyfreithiol sifil	Mae sefydliadau nid-er-elw yn parhau i fod yn ddarparwyr Help Cyfreithiol pwysig, a hwy sydd i gyfrif am 32% o'r holl waith Help Cyfreithiol a gafodd ei hawlio yn 2009/10, a 67% o'n darpariaeth mewn cyfraith lles cymdeithasol.
Arweiniodd 79% o achosion at fudd sylweddol i'r cleient	Mae hyn yn dangos llwyddiant cyffredinol Gwaith Trwyddedig a Gwaith Rheoledig.
Bu i ni ariannu dros 1 filiwn o weithredoedd o gymorth Help Cyfreithiol	Bu i ni ragori ar ein targed i ddarparu 1 filiwn o weithredoedd o gymorth Help Cyfreithiol drwy gyfrwng cyngor dros y teleffon a wyneb wrth wyneb yn ystod 2009/10, gyda chyfanswm o 1.17 miliwn o weithredoedd o gymorth yn cael eu cyflenwi. Bu i ni hefyd ddarparu 98,643 yn ychwanegol o weithredoedd o gymorth mewnfudo ar sail y galw a chyflwyno 159,715 o dystysgrifau ar gyfer Gwaith Trwyddedig. 

Y flwyddyn dan sylw

Cyngor Cyfreithiol Cymunedol

Mae CCC yn cynnig cymorth a chyngor cyfreithiol sifil annibynnol, cyfrinachol ac am ddim

Gall unrhyw un gysylltu â CCC i gael ei gyfeirio at ragor o gymorth a gall unigolion sy'n gymwys am gymorth cyfreithiol gael cymorth a chyngor arbenigol.

Ymysg gwasanaethau CCC y mae:

- Llinell gymorth dros y ffôn, gan ddarparu cymorth a chyngor cychwynnol i ddod o hyd i help pellach. Gall y rheini sy'n chwilio am gyngor ffonio 0845 345 4 345
- Gwasanaeth 'galwch fi'n ôl', gan gynnwys ieithoedd heblaw am Saesneg, sydd ar gael drwy'r wefan neu drwy anfon neges destun "legalaid" i 80010
- Gwefan CCC, sydd i'w gweld yn www.cyngorcyfreithiolcymunedol.org.uk
- Teledu rhyngweithiol digidol, lle gellir cael mynediad at CCC drwy gyfrwng y pell-reolwr i'r rheini sydd â mynediad cyfyngedig i'r rhyngrwyd
- Rhwydweithiau a chanolfannau Cyngor Cyfreithiol Cymunedol, sy'n darparu gwasanaethau cynrychioli a chynghori ar gyfer amrywiaeth eang o faterion. Mae gennym yn awr bum canolfan ac yn 2009/10 agorwyd ein rhwydwaith cyntaf.
- Pamffledi ar gategorïau unigol y gyfraith, sydd ar gael mewn amrywiaeth eang o leoliadau ar draws Cymru a Lloegr.

Darparodd CCC 417,440 o weithredoedd o gymorth

Bu i gynghorwyr ffôn arbenigol ddelio â 126,866 o weithredoedd o gymorth (gweler y siart isod) a chlowyd 290,574 o ymholiadau yn y cam brysbennu, drwy'r gweithredwr yn datrys problem y cleientiaid yn foddhaol neu'n eu cyfeirio at ffynhonnell na chaiff ei hariannu gan CGC.



Gwasanaeth Amddiffyn Troseddau (GAT)

Mae'r GAT yn ffurfio rhan o'r System Cyfiawnder Troseddol ehangach, ac mae'n sicrhau mynediad at gyngor, cymorth a chynrychiolaeth i'r holl unigolion sy'n gymwys, sy'n cael eu hamau neu sydd wedi eu cyhuddo o drosedd.

Cynllun [1]	Math o gyllid	Nifer yr hawliadau	Gwerth yr hawliadau ('£000)
Troseddu Is: Gwasanaethau a ddarperir i rai dan amheuaeth ond na chawsant eu cyhuddo eto	Presenoldeb mewn gorsafoedd heddlu	672,021	174,533
	Cyfanswm cyngor dros y ffôn a gweinyddu	170,751	11,144
	Gwaith arall gorsafoedd heddlu	10,314	1,598
Troseddu Is: Gwasanaethau a ddarperir i ddiffynyddion sydd wedi cael eu cyhuddo	Cyfanswm pan fo gorchymyn cynrychioli yn ofynnol	490,400	232,931
	Cyfanswm lle nad yw gorchymyn cynrychioli'n ofynnol neu os gwrthodwyd gorchymyn cynrychioli	18,118	8,097
	Cyfreithiwr dyletswydd y llys	87,740	22,666
	Cyfraith carchardai	47,539	25,211
Troseddu Uwch	Yr holl gynlluniau troseddu uwch	293,947	733,610

1 Mae diffiniadau a dadansoddiad ystadegol mwy manwl i'w gweld ar ein gwefan www.legalservices.gov.uk/aboutus/how/strategic_publications.asp.

Bu i wariant cyffredinol GAT, sef £1,120.5m (net) ein galluogi i ddarparu dros 1.5 miliwn o weithredoedd o gymorth.	Rydym yn sicrhau y darperir ystod lawn o wasanaethau amddiffyn troseddol, o gyngor a chymorth yng ngorsaf yr heddlu i amddiffyn cleientiaid yn y llys os cânt eu cyhuddo.
Galw GAT – mynediad at gyngor a gwerth am arian	Mae Galw GAT yn darparu i'r cyhoedd a gedwir gan yr heddlu ar amheuaeth o droseddau llai difrifol fynediad uniongyrchol at gyngor dros y ffôn. Mae ein gwasanaeth ateb galwadau, y Ganolfan Alwadau Cyfreithwyr Dyletswydd, yn sicrhau cyngor dros y ffôn gan naill ai Galw GAT, neu'n cysylltu â darparwyr unigol i ddarparu cyngor wyneb yn wyneb yn ddibynnol ar natur y trosedd honedig. Mae Galw GAT yn cyflawni gwaith i'w gleientiaid ei hun yn ogystal â gwaith dyletswydd. Gall cleientiaid newid i'w cyfreithiwr eu hunain yn ddiweddarach os ydynt angen rhywun yn bresennol mewn gorsaf heddlu ar gyfer cyfweliad neu os aiff eu hachos i'r llys. O'r 170,751 o achosion cynghori dros y ffôn yn 2009/10, cyflwynwyd 126,968 gan Galw GAT. O safbwynt amseroedd ymateb, gwnaed 98% o'r galwadau yn ôl i orsafoedd yr heddlu cyn pen 15 munud a dros 99% mewn 30 munud. Yr amser cyfartalog cyffredinol i wneud galwad ar ôl gofyn oedd 3 munud a 30 eiliad. Roedd y 43,783 yn weddill yn gyngor dros y ffôn a gyflwynwyd gan ddarparwyr unigol pryd y bu iddynt hwy ddyfarnu y byddai cyngor dros y ffôn yn briodol, er bod y trosedd honedig yn gymwys am gyngor wyneb yn wyneb, oherwydd amgylchiadau unigol yr achos.

Y flwyddyn dan sylw

Yn cwmpasu 100% o'r cynlluniau Cyfreithiwr dyletswydd 24 awr	Bu i'r GAT barhau i gynnal cwmpas llwyr o'r cynlluniau Cyfreithiwr dyletswydd mewn gorsafoedd heddlu ledled Cymru a Lloegr.
Mynediad at gyfiawnder - o orsafoedd heddlu i uwch lysoedd	Dan Gontractau Unedig troseddu bu i ni ariannu 1.41 miliwn o weithredoedd o gymorth mewn gorsafoedd heddlu a llysoedd ynadon a 126,083 yn yr uwch lysoedd.
Bu i'r Gwasanaeth Amddiffynnydd Cyhoeddus (PDS) agor 3,310 o ffeiliau yn 2009/10	Sefydlwyd y PDS yn 2001, a dyma'r darparwr cymorth cyfreithiol cyflogedig cyntaf yng Nghymru a Lloegr. Ceir pedair swyddfa PDS ar hyn o bryd: Cheltenham, Darlington, Pontypridd ac Abertawe. Mae cyfreithwyr PDS ar gael 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos i roi cyngor annibynnol, cymorth a chynrychiolaeth ar faterion troseddol. Mae'r CGC yn cyflogi cyfreithwyr PDS yn uniongyrchol, a rhaid iddynt lynu wrth *God Ymddygiad PDS* er mwyn sicrhau annibyniaeth.

Ein perfformiad

Bob blwyddyn rydym yn gosod cyfres o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol (Dangosyddion PA). Bwriad y rhain yw ein helpu i weithio tuag at fodloni ein Hamcanion Strategol a sicrhau ein bod yn cynnal mynediad teg at gyfiawnder.

Er bod y Dangosyddion PA yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn, mae rhai sy'n aros yn gyson, megis monitro mynediad at y gwasanaethau a ddarparwn, a sicrhau cynllun cymorth cyfreithiol cynaliadwy drwy gyfrwng targedau ar ein cyllid.

Mae'r 'cerdyn sgorio cytbwys' yn dangos sut y bu i ni berfformio yn erbyn ein Dangosyddion PA fel a ganlyn:

Cyflawnwyd

Cyflawnwyd yn rhannol

Ni chyflawnwyd pan na chyflawnwyd Dangosyddion PA yn llawn neu ddim o gwbl, rydym wedi cynnwys troednodyn i esbonio ein perfformiad mewn mwy o fanylder.

Eleni, bu i ni gyflawni 15 o'r Dangosyddion PA, gan gyflawni 6 yn rhannol a methu 2. Nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei harchwilio.

Cyllid

Amcan Strategol	Pennawd y DPA	DPA	Statws
Cyflenwi cynllun cymorth cyfreithiol cynaliadwy ynghyd â sefydliad effeithlon ac amrywiol	Trawsnewid y cynllun	Cyflenwi elfennau sifil a throseddu'r rhaglen ar amser, am y gost iawn a sicrhau'r manteision disgwyliedig	✓
	Trawsnewid y broses	Cyflenwi elfennau mewnol y rhaglen drawsnewid	– [1]
	Rheolaeth ariannol	Byw o fewn y gyllideb weinyddu ar gyfer 2009/10 – arian agos	✓
		Byw o fewn cyllideb y gronfa 2009/10 – arian ac adnoddau	✗ [2]
		Gostwng y ddyled gyffredinol sy'n ddyledus i'r CGC i £300m	✗ [3]
		Cysoni (y taliadau i ddarparwyr am waith a wnaed) - cynnal 98% o'r contractau o fewn 90-110%	✓

1 Effeithiwyd ar hwn oherwydd oedi yn y broses arfaethedig o leihau nifer y gweithwyr, ynghyd ag oedi yn y manteision yn sgil gweithredu'r cynllun gweithio'n electronig 'e-ffurflenni'.

2 Gweler manylion ynghylch y gwariant terfynol ym mhennod y flwyddyn dan sylw ar dudalen 5. Roedd y pwysau ar y gyllideb cymorth cyfreithiol yn cynnwys y dirwasgiad, cynnydd mewn cynrychiolaeth sifil a swmp y gwaith o Lys y Goron.

3 Lleihawyd y ddyled gros o £315m i £308m erbyn 31 Mawrth 2010. Cafodd newidiadau yn y farchnad dai effaith ar ein dyledion sicredig, sy'n golygu bod y lefel ad-dalu'n sylweddol is na'r blynyddoedd cynt.

Ein perfformiad

Cwsmeriaid

Amcan Strategol	Pennawd y DPA	DPA	Statws
Sicrhau'r mynediad gorau posib at wasanaethau o ansawdd er mwyn bodloni anghenion amrywiol y cleientiaid a wasanaethwn	Mynediad at wasanaethau	i. 95% o'r galwadau dyletswydd i orsafoedd heddlu wedi'u derbyn cyn pen 30 munud ii. Darpariaeth 100% o safbwynt cyfreithwyr dyletswydd y llys	✓
		Cyflawni 1 filiwn o weithredoedd o gymorth: 700,000 wyneb wrth wyneb; 200,000 brysbennu Cyngor Cyfreithiol Cymunedol; 100,000 arbenigwyr y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol	✓
		90% o alwadau i'r Llinell Iaith (sy'n cynnig cyfieithiad ar linell gymorth dros y ffôn CCC) i gael eu derbyn cyn pen 2 funud	✓
		i. Cynnal y mynediad presennol gyda dros 90% o'r meysydd caffael yn contractio cymorth cyfreithiol gydag o leiaf un darparwr yn cynnig un o bob categori'r gyfraith lles cymdeithasol gydag o leiaf gapasiti i ddechrau 50 o faterion newydd ii. Cynnal y mynediad presennol gyda dros 95% o feysydd caffael gydag o leiaf 5 o ddarparwyr teulu cyfraith gyhoeddus a 2 o ddarparwyr teulu cyfraith breifat gydag o leiaf gapasiti i ddechrau 50 o faterion newydd	⊖ [4]
	Ansawdd	i. Cynnal adolygiad gan gymheiriaid o gyfran o'r contractau gweithredol ym maes cymorth cyfreithiol sifil a throseddu, gan gyflenwi 801 o adolygiadau ii. Gostwng nifer y cymheiriaid adolygu gweithredol o 185 i 147 iii. Cyhoeddi canlyniadau methu adolygiadau gan gymheiriaid fesul darparwr ynghyd â data ystadegol dienw	⊖ [5]
		80% o ddarparwyr gyda graddfa risg (yn ymhlygu pryderon am berfformiad o safbwynt cost, ansawdd neu fynediad) i gael ymyriad cadarnhaol gan y CGC	✓
	Datblygu gwasanaethau i fodloni anghenion amrywiol cleientiaid	Gweithredu'r strategaeth cyswllt cleientiaid a'r cyhoedd	✓
		Cynnal sgôr genedlaethol gwasanaethau i gwsmeriaid ar 90%	✓

4 Methodd un maes caffael i gwrdd â'r targed. Mae hyn oherwydd na ddefnyddiodd un darparwr gymaint o arian a ragwelwyd ar gyfer helpu pobl â phroblemau dyled.

5 Llwyddom i gyflawni rhannau i a ii o'r targed hwn ond ni wnaethom gyhoeddi canlyniadau darparwyr yr oeddent wedi methu'r adolygiad gan gymheiriaid erbyn diwedd y flwyddyn.

Pobl a phrosesau

Amcan Strategol	Pennawd y DPA	DPA	Statws
Cyflenwi cynllun cymorth cyfreithiol cynaliadwy a sefydliad effeithlon ac amrywiol	Trawsnewid mewnol	Gweithredu'r fframwaith datblygu a dysgu	⊖ [6]
		Cyflawni sgôr o 90% ar gerdyn sgorio'r bobl	⊖ [7]
		Sicrhau amrywiaeth y gweithlu	✓

Arloesi

Amcan Strategol	Pennawd y DPA	DPA	Statws
Hwyluso cyflenwi cyfiawnder yn effeithlon a blaenoriaethau ehangach y llywodraeth	Cynlluniau'r system gyflawn	i. Gwella effeithlonrwydd yn y system cyfiawnder sifil ii. Gwella effeithlonrwydd yn y system cyfiawnder troseddol	✓
	Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol	Cyflenwi'r rhaglen Aspire (yn darparu mentoriaid i bobl ifanc)	✓
		Cynaliadwyedd: Defnyddio 15% yn llai o drydan mewn perthynas â lefelau 2007/08; Lleihau'r allyriadau carbon o geir a ddefnyddir ar gyfer teithiau busnes 5%; Gostwng y gwastraff cyffredinol sy'n codi 5% mewn perthynas â lefelau 2008/09; 70% o'r gwastraff swyddfa i gael ei ailgylchu	✓
		Gwell rheoliadau – lleihau'r beichiau gweinyddol (ar ddarparwyr cymorth cyfreithiol) £20m	✓
	Sicrhau gwybodaeth	Sicrheir cynnydd yn erbyn cynllun 13 phwynt (i wella diogelwch data a systemau gwybodaeth)	✓

6 Cafodd y rhaglen hon ei hoedi oherwydd adolygiad o flaenoriaethau'r CGC.

7 Mae cerdyn sgôr y bobl yn cynnwys mesurau adnoddau dynol allweddol megis absenoldeb salwch a'i reoli, nifer y gweithwyr, ac ansawdd adolygiadau o ddatblygiad a pherfformiad. Bu i'r ffaith y methwyd â gwneud y gostyngiadau yn nifer y gweithwyr, oherwydd y gwaith ychwanegol a oedd yn ofynnol ynghylch rheoliadau ariannol, effeithio ar berfformiad.

Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol
The Legal Services Commission
4 Abbey Orchard Street
Llundain, SW1P 2BS

www.legalservices.gov.uk/cymru.asp

020 7783 7000